**Dyddiadau ffenestri datgan diddordeb Tachwedd 2023**

| **Cynllun** | **Crynodeb** | **Dyddiadau ffenestri** |
|---|---|---|
| Cynllun Cynllunio Creu Coetir | Mae'r Cynllun Cynllunio Creu Coetir yn cynnig grantiau o rhwng £1000 a £5000 i ddatblygu cynlluniau i greu coetir newydd. Ar ôl i gynllun gael ei gymeradwyo gan Cyfoeth Naturiol Cymru mi fydd yn gymwys i dderbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru i blannu coed a ffensio (Grant Creu Coetir).<br><br>Mae gwybodaeth bellach ar gael yma: https://llyw.cymru/cynllun-cynllunio-creu-coetir | Ar agor trwy'r flwyddyn (yn amodol ar gyllideb) |
| Grant Datblygu Mawndiroedd | Er mwyn gwrthdroi dirywiad cynefinoedd a gwella cyflwr mawndiroedd Cymru, mae gennym grantiau datblygu cyfalaf o rhwng £10,000-£30,000 i'w cynnig.<br>Bydd y grant datblygu yn galluogi unigolion a sefydliadau i:<br><br>• ystyried a yw eu prosiect adfer mawndir yn ddichonadwy<br>• datblygu prosiect adfer mawndir wedi'i gostio erbyn Ionawr 2025 y mae siawns realistig o'i gyflawni<br>• casglu'r wybodaeth y bydd ei hangen arnynt i wneud cais am rowndiau cyllid grant ar gyfer cyflawni yn y dyfodol.<br><br>**Blaenoriaethau'r prosiect**<br>Bydd angen i bob prosiect fynd i'r afael ag un neu fwy o **flaenoriaethau'r Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd**:<br><br>• Erydiad ar fawndiroedd<br>• Draeniad mewn mawndiroedd<br>• Rheoli gorgorsydd mawn yn gynaliadwy<br>• Rheoli mawndiroedd yr iseldir yn gynaliadwy<br>• Adfer mawndiroedd a goedwigwyd<br>• Gwaith adfer graddol ar y mawndiroedd sy'n rhyddhau'r mwyaf o garbon<br><br>Rhaid i'r mawndir hefyd fod yng Nghymru - ar gyfer unrhyw gynigion trawsffiniol, byddwn yn ystyried y rhan sydd yng Nghymru yn unig.<br>Gallwch wneud cais am rhwng £10,000 a £30,000 o gyllid.<br>Gallwch ofyn am hyd at 100% o gostau eich prosiect.<br>Gall prosiectau llwyddiannus ddechrau o 1 Ebrill 2024 a rhaid eu cwblhau - a chyflwyno'r hawliad terfynol - erbyn 15 Ionawr 2025.<br><br>Dylid cyfeirio unrhyw **ymholiadau am y grantiau** a'r broses ymgeisio i grants.enquiries@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk.<br><br>Mwy o wybodaeth: https://naturalresources.wales/about-us/grants-and-funding/peatland-development-grant/?lang=cy | 13eg Hydref 2023 – 15fed Ionawr 2024 |

| | | |
|---|---|---|
| Tyfu er mwyn yr Amgylchedd (cnydau Gwanwyn a Haf) | Mae'r ffenestr ymgeisio hon yn cynnig cymorth i sefydlu cnydau sy'n cael eu hau yn y gwanwyn a'r haf a all arwain at welliannau ym mherfformiad amgylcheddol busnes y fferm. Mae'r rhain yn cynnwys gwyndynnydd cymysg, cnydau protein ac ydau heb eu chwistrellu, Mae'r holl gnydau cymwys a'r gofynion wedi'u nodi, ynghyd â thaliad safonol fesul hectar.<br>Mae cyllideb o £1.9m wedi'i dyrannu ar gyfer y ffenestr ymgeisio hon.<br>Y grant mwyaf y gellir ei ddyfarnu yw £5,000.<br>Mae'r grant lleiaf y gellir ei ddyfarnu yn cyfateb i'r gyfradd dalu ar gyfer un hectar o gnwd cymwys.<br>Cewch wneud cais am fwy na'r grant mwyaf. Os byddwn yn dewis eich datganiad o ddiddordeb, bydd yr hawliad cysylltiedig yn cael ei gapio i'r uchafswm o £5,000.<br>Yr arwynebedd lleiaf y gellir gwneud cais arno yw un hectar o gnydau gorchudd. Caiff yr arwynebedd lleiaf o un hectar gynnwys nifer o ddarnau llai o dir mewn mwy nag un parsel cae, cyn belled nad yw arwynebedd unrhyw barsel cae unigol yn is na 0.10 hectar.<br>Caiff ymgeiswyr rannu'r arwynebedd lleiaf o un hectar rhwng un neu fwy o barseli tir.<br>Am fwy o wybodaeth:<br>https://www.llyw.cymru/tyfu-er-mwyn-yr-amgylchedd | 6ed Tachwedd 2023 – 15fed Rhagfyr 2023 |
| Grantiau Bach – Gorchuddio Iardiau | Mae'r cynllun Grantiau Bach – Gorchuddio Iardiau yn gynllun cyfalaf sy'n cynnig cymorth i ffermwyr yng Nghymru i wella'u rheolaeth o faetholion ar y fferm drwy fuddsoddi yn y seilwaith presennol.<br>Darperir cymorth i wahanu dŵr glaw a slyri o ardaloedd megis mannau lle mae da byw yn bwydo ac yn ymgasglu, ardaloedd storio tail buarth, a storfeydd slyri/silwair.<br>Yr amcanion yw cynyddu buddsoddiad ar ffermydd, gwella perfformiad technegol, cynyddu effeithlonrwydd cynhyrchu a gwneud defnydd mwy effeithlon o adnoddau ar ffermydd.<br>Mae cyllideb o £3,000,000 wedi'i dyrannu ar gyfer y ffenestr ymgeisio hon.<br>Uchafswm y grant yw £12,000 a'r isafswm yw £3,000. Mae'r grant yn darparu hyd at 40% o werth buddsoddiadau cyfalaf mewn offer (ac eithrio TAW) y nodwyd ymlaen llaw eu bod yn cynnig buddiannau clir a mesuradwy i fusnesau fferm.<br>Caiff eich cais fod yn fwy na'r uchafswm grant. Os dewisir eich datganiad o ddiddordeb, bydd yr hawliad cysylltiedig yn cael ei gapio i'r uchafswm o £12,000. Os ydych wedi gwneud cais am y Grant Busnes i Ffermydd – Gorchuddio Iardiau yn y gorffennol, ni fydd cyfanswm y grant a dderbyniwyd yn cyfrif tuag at uchafswm y grant sydd ar gael drwy'r cynllun Grantiau Bach – Gorchuddio Iardiau. Mae uchafswm grant o £12,000 ar gael i bob ymgeisydd cymwys.<br>Am fwy o wybodaeth:<br>https://www.llyw.cymru/grantiau-bach-gorchuddio-iardiau | 6ed Tachwedd 2023 – 15fed Rhagfyr 2023 |

| | | |
|---|---|---|
| Cynllun Datblygu Garddwriaeth | Mae'r Cynllun Datblygu Garddwriaeth yn gynllun grant Cyfalaf sydd ar gael i gynhyrchwyr garddwriaethol masnachol presennol ledled Cymru. Nod y cynllun yw:<br>cynorthwyo cynhyrchwyr garddwriaethol masnachol presennol i ddatblygu eu busnesau drwy fuddsoddi mewn cyfarpar a thechnoleg newydd sy'n cynnig manteision clir a mesuradwy i'r busnes garddwriaethol; galluogi busnesau garddwriaethol i ehangu cynhyrchiant yn gynaliadwy, arallgyfeirio i dyfu cnydau newydd, gwella effeithlonrwydd cynhyrchu a gwella ansawdd y cynnyrch; galluogi cynhyrchwyr garddwriaethol i fynd i farchnadoedd newydd, cynyddu cyflogaeth leol a chefnogi'r economi wledig fel rhan o'r adferiad gwyrdd o Covid-19.<br>Mae'r cynllun yn un dewisol. Byddai swm y grant a gynigir yn dibynnu ar amgylchiadau unigol a bydd pob swm yn **isafswm angenrheidiol** i ganiatáu i'r buddsoddiadau fynd rhagddynt.<br>Mae cyllideb o £1m wedi'i dyrannu ar gyfer y ffenestr ymgeisio hon.<br>Y grant mwyaf sydd ar gael yw **£100,000** a'r grant lleiaf yw **£3,000**.<br>Mae'r grant yn cyfrannu uchafswm o 40% o werth y buddsoddiad cyfalaf mewn offer a pheiriannau (heb gynnwys TAW) y gellir profi y byddant yn dod â mantais amlwg a mesuradwy i'r fenter arddwriaethol.<br>Gallwch wneud cais am swm sy'n fwy na'r grant uchaf, ond os yw'r cais yn cael ei ddewis, ni chaiff y grant fod yn fwy na'r uchafswm o £100,000.<br><br>Am fwy o wybodaeth:<br>https://www.llyw.cymru/horcynllun-datblygu-garddwriaeth | 6ed Tachwedd 2023 – 12fed Ionawr 2024 |
| Cynllun Arallgyfeirio Amaethyddol | Cynllun grant cyfalaf yw'r Cynllun Arallgyfeirio Amaethyddol, sydd ar gael i ffermwyr ym mhob rhan o Gymru. Amcanion y cynllun yw:<br><br>• helpu i sefydlu mentrau arallgyfeirio amaethyddol hyfyw newydd ar ffermydd<br>• helpu i ddatblygu mentrau gwreiddiol neu arbenigol sy'n bod eisoes<br>• gwneud amaethyddiaeth Cymru yn fwy cydnerth trwy ddatblygu ffrydiau incwm amrywiol<br>•lleihau'r ddibyniaeth ar fentrau amaethyddol traddodiadol<br>• ymateb i gyfleoedd marchnata newydd a datblygu marchnadoedd newydd.<br><br>Rhoddir cymorth i brosiectau sy'n bodloni'r amodau canlynol yn unig:<br><br>• datblygu mentrau da byw amaethyddol sy'n bod eisoes neu sefydlu rhai newydd, nad ydynt yn fentrau traddodiadol yng Nghymru.<br><br>Dyma fentrau yr ystyrir eu bod yn rhai traddodiadol; bîff, defaid, godro (buchod), moch a dofednod. Ni roddir cymorth iddyn nhw, na mentrau bridiau prin neu dda byw pedigri.<br>Un enghraifft o brosiect cymwys fyddai prosiect buddsoddi cyfalaf i ddatblygu neu sefydlu menter godro defaid neu eifr. | 6ed Tachwedd 2023 – 12fed Ionawr 2024 |

| | | |
|---|---|---|
| | • tyfu cnydau newydd neu gnydau amgen<br><br>Ni roddir cymorth ar gyfer tyfu cnydau âr neu arddwrol traddodiadol.<br>Un enghraifft o brosiect cymwys fyddai prosiect buddsoddi cyfalaf i ddatblygu neu sefydlu menter i dyfu planhigion at ddibenion ffibr, ynni neu feddyginiaeth.<br>Byddai offer arbenigol sydd ei angen ar gyfer sefydlu, cynaeafu a storio'r cnwd newydd yn gymwys, yn ogystal â hadau a phlanhigion.<br><br>• helpu buddsoddiad er mwyn i ffermwyr allu ychwanegu at werth cynnyrch amaethyddol neu sgil-gynhyrchion amaethyddol.<br><br>Enghraifft o brosiect cymwys fyddai ychwanegu gwerth drwy brosesu bwyd ar y fferm, prosesu gwlân, cynnyrch gwastraff neu wellt.<br><br>Mae cyllideb o £1m wedi'i dyrannu ar gyfer y ffenestr ymgeisio hon.<br>Y grant mwyaf sydd ar gael yw £100,000 a'r grant lleiaf yw £3,000.<br>Mae'r grant yn cyfrannu uchafswm o 40% o werth y buddsoddiadau cyfalaf (heb gynnwys TAW) y gellir dangos y byddant yn dod â manteision amlwg a mesuradwy i fusnesau fferm.<br>Am fwy o wybodaeth:<br>https://www.llyw.cymru/cynllun-arallgyfeirio-amaethyddol | |
| Cynllun Sbarduno Busnesau Bwyd | Mae'r cynllun hwn yn cynnig cymorth ar gyfer buddsoddiadau diriaethol a/neu anniriaethol mewn gweithgareddau prosesu sy'n dod â manteision clir a mesuradwy i'r diwydiant bwyd a diod yng Nghymru a'i gadwyni cyflenwi.<br><br>**Rydych chi'n gymwys i ymgeisio:**<br><br>Os ydych chi'n **fusnes sydd wedi cofrestru ar gyfer TAW** sy'n ymgymryd â phrosesau cynradd a/neu eilaidd mewn cynnyrch amaethyddol ac anamaethyddol, megis:<br><br>• cwmnïau cyfyngedig preifat a chyhoeddus<br>• unig fasnachwyr a phartneriaethau<br>• busnesau fferm sy'n prosesu cynnyrch amaethyddol<br>• busnesau newydd, gan gynnwys hen fusnesau sy'n dechrau arallgyfeirio a busnesau sydd newydd eu sefydlu<br>• cwmnïau nid-er-elw, cwmnïau cydweithredol a mudiadau cymunedol, cyhoeddus a gwirfoddol<br><br>**Costau Cymwys**<br>Gellir defnyddio'r cymorth o dan y cynllun hwn ar gyfer asedau tiriaethol megis prynu a/neu ddatblygu tir, adeiladau, peiriannau, a chyfarpar, yn ogystal ag asedau anniriaethol fel meddalwedd gyfrifiadurol, hawliau patent, a thrwyddedau a | Wedi agor ar 17eg Tachwedd 2022 a bob 4 wythnos detholir buddiolwyr llwyddiannus i'w gwahodd i gyflwyno cais llawn. Bydd y ffenestr yn aros ar agor nes bod y gyllideb a ddyrannwyd wedi'i defnyddio. |

| | | |
|---|---|---|
| | ffioedd ar gyfer gwasanaethau technegol ac ymgynghori, yn amodol ar gyfyngiadau:<br><br>Y grant mwyaf a roddir fesul menter ar gyfer unrhyw brosiect buddsoddi unigol yw **£5,000,000**<br><br>Y grant lleiaf a roddir fesul menter ar gyfer unrhyw brosiect buddsoddi unigol yw **£20,000**<br><br>Mwy o wybodaeth:<br>https://llyw.cymru/cynllun-sbarduno-busnesau-bwyd-canllawiau-html | |